



Gower College Swansea  
Coleg Gŵyr Abertawe

# **GWEITHDREFN PRESENOLDEB MYFYRWYR COLEG GŴYR ABERTAWA CANLLAWIAU I FYFYRWYR**

## **1. Cyflwyniad**

- 1.1 Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn cydnabod y berthynas rhwng presenoldeb da, prydlondeb a llwyddiant myfyrwyr. Mae bod yn hwyr yn gyson a diffyg presenoldeb yn tarfu ar weithgareddau dysgu ac addysgu holl fyfyrwyr y coleg.
- 1.2 Amcanion y weithdrefn hon yw:
  - sicrhau bod pob absenoldeb yn cael ei drin yn deg ac yn gyson ar draws Coleg Gŵyr Abertawe.
  - monitro a gwella presenoldeb yr holl fyfyrwyr.
- 1.3 Wrth ddehongli'r gweithdrefnau hyn mae penderfyniad y Coleg yn derfynol. Gall y Coleg ddiwygio'r weithdrefn hon ar unrhyw adeg neu ei anwybyddu yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos.

## **2. Canllawiau Presenoldeb**

- 2.1 Rydych wedi llofnodi Cod Myfyrwyr Coleg Gŵyr Abertawe ac, felly, mae disgwyl i chi gydymffurfio ag ef. Os yw'ch presenoldeb yn anfoddfaol, bydd y Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr (Atodiad 1) yn weithredol.
- 2.2 Rhaid i chi gyrraedd yn brydlon a mynychu **pob** dosbarth, gweithgareddau gorfodol, sesiynau tiwtorial a sesiynau adolygu. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau gwaith.
- 2.3 Bydd eich presenoldeb yn cael ei fonitro drwy'r Cofrestrau, Cronfa Ddata Gwybodaeth Myfyrwyr a'r system achosion pryder.
- 2.4 Rhaid i chi sicrhau na fydd unrhyw waith rhan-amser neu weithgareddau allanol yn effeithio ar eich astudiaethau yn y Coleg.

- 2.5 **Mae absenoldebau heb eglurhad yn annerbyniol.** Os oes rhesymau dilys dros eich absenoldeb, rhaid i chi ddarparu prawf pam nad oeddech yn y coleg.
- 2.6 Os ydych yn absennol am fwy na phedair wythnos heb roi gwybod i'ch Tiwtor, eich Cydlynnydd, Tiwtor Cynorthwyol y Gyfadran neu Diwtor y Gyfadran na darparu'r dystiolaeth briodol byddwch yn cael eich gwahardd o'r Coleg (bydd eich Tiwtor/Rheolwr y Maes Dysgu wedi ceisio cysylltu â chi yn ystod y cyfnod hwn). Os felly, ni fydd Gweithdrefnau Disgyblu'r Coleg yn briodol ond caiff eich gwaharddiad ei gofnodi yn y Cyfeirlyfr Gwybodaeth Myfyrwyr ar gyfer unrhyw geisiadau i'r Coleg yn y dyfodol. Mae gennych yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Coleg.

### 3. **Salwch**

- 3.1 Os ydych yn sâl cyn cyrraedd y Coleg, rhaid i chi neu'ch rhiant/gwarcheidwad gysylltu â'r Coleg cyn 10am ar bob diwrnod o absenoldeb.
- os ydych yn mynychu campysau Gorseinon, Tycoch, Llwyn y Bryn neu Ffordd y Brenin rhaid i chi ddilyn y gweithdrefnau a amlinellir yn Atodiad 2;
  - os ydych ar leoliad profiad gwaith, rhaid i chi roi gwybod i'ch goruchwyliwr yn y lleoliad a'r Coleg.
- 3.2 Os byddwch yn teimlo'n sâl yn ystod y dydd:
- Rhaid i chi roi gwybod i Nyrs y Coleg neu yn ei absenoldeb dylech hysbysu'ch swyddfa gyfadran.
- Peidiwch â gadael y safle heb wneud hyn.

### 4. **Absenoldebau ag Eglurhad**

- 4.1 Mae rhai absenoldebau y gellir eu marcio fel E (Eglurhad) ar y gofrestr. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Salwch
  - Apwyntiadau meddygol, na ellir eu trefnu y tu allan i oriau coleg.
  - Gwyliau crefyddol (hyd at 3 diwrnod)
  - Ymweliad â chyfweliad prifysgol, diwrnod agored, neu gyfweliad sy'n gysylltiedig â gyrfa.
  - Lleoliad gwaith, sy'n rhan annatod o raglen astudio'r myfyriwr ac nid yw'r myfyriwr yn cael tâl amdano.
  - Presenoldeb mewn cyfarfod prawf neu gyfarfod gyda gweithiwr cymdeithasol.
  - Cludiant myfyrwyr sydd wedi cael ei effeithio'n sylweddol, fel streic neu storm eira, sy'n gadael y myfyriwr heb unrhyw gludiant arall i deithio i'r Coleg.
  - Prawf gyrru / prawf gyrru theori.
  - Cyfarfod cynrychiolwyr Coleg.

- 4.2 Os ydych am i'r gofrestr gael ei marcio fel E (Eglurhad) bydd rhaid dangos prawf eich bod yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn (gwler Atodiad 3).
- 4.3 Os ydych yn derbyn cyllid LCA, rhaid i chi gyflwyno'r prawf hwn i'r Tîm Cyllid Myfyrwyr yn yr Adran Gwasanaethau Myfyrwyr. Rhaid i chi wneud hyn o fewn pythefnos o'r absenoldeb er mwyn sicrhau eich bod yn parhau i dderbyn yr arian. **Os nad yw'r prawf yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Cyllid Myfyrwyr ni all eich absenoldeb gael ei farcio ar y gofrestr fel E (Eglurhad).**
- 4.4 Os nad ydych yn derbyn cyllid dylech roi'r dystiolaeth i'ch Swyddfa Gyfadran a ddylai ei ffeilio yn eich ffeil Cofnod Personol.

## 5. Absenoldeb Heb Eglurhad

- 5.1 **Nid** yw'r rhesymau canlynol am absenoldeb yn dderbyniol ac ni allant gael eu marcio fel E (Eglurhad) ar y gofrestr. Maen nhw'n cynnwys:
- Gwyliau.
  - Gwaith rhan-amser neu amser llawn nad yw'n rhan o'ch rhaglen astudio.
  - Gweithgareddau hamdden.
  - Pen-blwyddi neu ddatliadau tebyg.
  - Siopa.
  - Gwersi gyrru.
- 5.2 Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.
- 5.3 Dylech fod yn ymwybodol os ydych yn cymryd gwyliau yn ystod y tymor mae'n bosibl y cewch eich tynnu'n ôl o arholiadau a / neu efallai ni fydd eich gwaith cwrs yn cael ei gyflwyno ar gyfer dilysu. Efallai y byddwch yn cael eich galw i gyfarfod hefyd yn unol â Cham 3 o'r Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr yn Atodiad 1.

## 6. Camau Disgyblu am Dorri'r Gweithdrefnau Presenoldeb Myfyrwyr

- 6.1 Os byddwch yn mynd yn groes i'r Gweithdrefnau Presenoldeb Myfyrwyr bydd y Gweithdrefnau Disgyblu Myfyrwyr yn weithredol fel yr amlinellir isod:

**Cam Un:** Bydd aelod o'r tîm academiaidd yn siarad â chi e.e. eich tiwtor, eich cydlynnydd, Tiwtor y Gyfadran neu Reolwr y Maes Dysgu. Bydd disgwyl i chi egluro eich absenoldebau a darparu cynllun gweithredu ar gyfer gwella (Cam Un). Bydd eich presenoldeb yn cael ei fonitro.

**Cam Dau:** Os na fydd eich presenoldeb yn gwella bydd cyfarfod arall yn cael ei gynnal gyda chi ac, os yw'n briodol, byddwn yn rhoi rhybudd ysgrifenedig terfynol i chi (Cam Dau) gan nodi y byddwch yn cael eich gwahardd o'r Coleg os ydych yn parhau i beidio â dod. Efallai y bydd eich rhybudd hefyd yn cynnwys amodau. Gall y Coleg benderfynu:

- Peidio â'ch cofrestru ar gyfer arholiadau / asesiadau allanol.
- Peidio â chyflwyno eich gwaith cwrs ar gyfer dilysu.
- Peidio â gadael i chi symud ymlaen i'r flwyddyn / lefel nesaf ar eich cwrs.

**Cam Tri:** Os bydd eich presenoldeb yn parhau i achosi pryder byddwch yn cael eich gwahardd o'r Coleg (Cam Tri). Bydd yr unigolyn a enwebyd yn anfon llythyr atoch i esbonio'r sefyllfa.

- 6.2 Mae'n bosibl y bydd y Coleg yn cysylltu â'ch Rhieni / Gwarcheidwaid ar unrhyw adeg i roi gwybod iddynt am y broblem presenoldeb a'u gwahodd i ddod i'r Coleg i drafod eich presenoldeb.
- 6.3 Os byddwch yn cael eich gwahardd mae gennych yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.

## **7. Apelio**

- 7.1 Os hoffech apelio yn erbyn y penderfyniad, rhaid i chi ysgrifennu at Bennaeth Gwasanaethau a Chymorth Dysgwyr o fewn 5 diwrnod o'r gwaharddiad gan nodi pam rydych yn apelio yn erbyn y penderfyniad.
- 7.2 Os nad oes rhesymau clir dros yr apêl ac mae'r Coleg wedi dilyn ei weithdrefnau'n gywir, ni fydd Panel Apeliadau'n cael ei gynnal. Os bydd y Panel Apeliadau'n mynd yn ei flaen, bydd yn cael ei drin yn unol â Gweithdrefn Apeliadau'r Coleg.
- 7.3 Dyma ddiwedd y weithdrefn ac nid oes gennych hawl bellach i apelio.

## **8. Dyddiad ac Adolygiad y Weithdrefn**

- 8.1 Bydd y weithdrefn hon yn cael ei hadolygu bob tair blynedd. Dyddiad yr adolygiad nesaf fydd Mehefin 2019.

## **9. Dogfennau cysylltiedig eraill**

- Cod Ymddygiad Myfyrwyr
- Gweithdrefn Disgyblu Myfyrwyr

## Atodiad 1: Gweithdrefn Disgyblu Myfyrwyr

Ar ôl ystyried yr achos yn iawn, gallai myfyriwr gael ei wahardd o'r coleg os yw ei ymddygiad yn anfodddhaol yn ôl Gweithdrefnau Disgyblu'r coleg.

### Achos Cyntaf y Myfyriwr o Gamymddwyn



#### Cam 1:

Cyfarfod gyda'r Tiwtor Personol

**Rhybudd llafar a/neu ysgrifenedig**

Ticiwch



**Methu â diwallu'r amodau y cytunwyd arnynt neu ail achos o gamymddwyn**



#### Cam 2:

Cyfarfod gyda'r Tiwtor Cyfadran a Rheolwr y Maes Dysgu/Rheolwr Dysgu Seiliedig ar Waith

**Rhybudd terfynol ysgrifenedig gydag amodau**



**Methu â diwallu'r amodau y cytunwyd arnynt neu drydydd achos o gamymddwyn**



#### Cam 3:

Llythyr gwahardd Rheolwr y Maes Dysgu Seiliedig ar Waith

**Llythyr gwahardd**



#### Apelio

Gall y myfyriwr apelio yn erbyn y penderfyniad trwy ysgrifennu at Is-bennaeth Gwasanaethau Academaidd o fewn 5 diwrnod o'r gwaharddiad gyda rhesymau cryf dros yr apêl.



Gallu cadarnhau'r penderfyniad i wahardd neu aildderbyn o dan rybudd terfynol ysgrifenedig gydag amodau.

## Atodiad 2: Gweithdrefn Presenoldeb Myfyrwyr

Os nad ydych yn gallu dod i'r Coleg, rhaid dilyn y weithdrefn ganlynol. Rhaid i chi hysbysu'r Coleg **cyn 10 am** ar **bob** diwrnod o absenoldeb.

1. Rhowch [www.coleggwyrabertawe.ac.uk](http://www.coleggwyrabertawe.ac.uk) yn eich porwr gwe
2. Cliciwch ar y tab **Staff/Myfyrwyr**
3. Cliciwch ar y tab **Cofnodi Absenoldeb Myfyriwr** a rhowch yr wybodaeth sydd ei hangen ar y templed:

Eich Enw Llawn	Eich Rhif Adnabod Myfyriwr
Eich Dyddiad Geni	Rheswm am yr Absenoldeb
Cyfadrn	Campws
Presenoldeb (ALI/RhA)	Dewiswch yr opsiwn amser llawn neu ran-amser
Gwiriad Diogelwch	

### Newid eich A (Absenoldeb) i Absenoldeb E (Eglurhad)

Os ydych am i'r gofrestr gael ei marcio fel E (Eglurhad), bydd angen i chi roi tystiolaeth eich bod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd y gellir ei farcio fel Eglurhad (Gweler Gweithdrefn Presenoldeb Myfyrwyr).

Os ydych yn derbyn cyllid LCA, rhaid i chi gyflwyno'r prawf hwn i'r Tîm Cyllid Myfyrwyr lleoli yn yr Adran Gwasanaethau Myfyrwyr. Rhaid i chi wneud hyn o fewn pythefnos o'r absenoldeb er mwyn sicrhau eich bod yn parhau i dderbyn yr arian. **Os nad yw'r prawf yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Cyllid Myfyrwyr ni all eich absenoldeb gael ei farcio ar y gofrestr fel E (Eglurhad).**

Os nad ydych yn derbyn cyllid dylech roi'r dystiolaeth i'ch Swyddfa Gyfadrn a ddylai ei ffeilio yn eich ffeil Cofnod Personol.

Bydd y Gyfadrn yn monitro absenoldebau myfyrwyr a phenderfynu ar y camau priodol i'w cymryd yn unol â'r Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr. Mae hyn yn golygu efallai y byddwn yn gofyn i chi adael y coleg ar sail absenoldeb gwael parhaus.

### Atodiad 3: Tystiolaeth Ofynnol ar gyfer Absenoldebau ag Eglurhad

**Nid** yw'r rhesymau canlynol am absenoldeb yn dderbyniol ac ni allant gael eu marcio fel E (Eglurhad) ar y gofrestr. Maen nhw'n cynnwys:

Gwyliau.	Gweithgareddau hamdden.
Pen-blwyddi neu ddathliadau tebyg.	Siopa.
Gwersi gyrru.	Gwaith rhan-amser neu amser llawn nad yw'n rhan o'ch rhaglen astudio.

**Mae'r rhesymau isod yn gallu cael eu marcio fel E ar y gofrestr os bydd tystiolaeth yn cael ei darparu.**

Absenoldeb	Tystiolaeth Ofynnol
Salwch	Llythyr oddi wrth riant neu warcheidwad am un cyfnod o absenoldeb fesul tymor academiaidd yn unig. RHAID i absenoldebau dilynol gael eu hategu gyda phapur meddyg i gael Absenoldeb ag Eglurhad.
Apwyntiadau meddygol, na ellir eu trefnu y tu allan i oriau coleg.	Cerdyn apwyntiad, llythyr swyddogol.
Gwyliau crefyddol (hyd at 3 diwrnod)	Llythyr gan riant neu warcheidwad.
Ymweliad â chyweliad prifysgol, diwrnod agored neu gyfweiliad sy'n gysylltiedig â gyrfa.	Dogfennau swyddogol gan sefydliad / cwmni.
Lleoliad gwaith, sy'n rhan annatod o raglen astudio'r myfyriwr ac nid yw'r myfyriwr yn cael tâl amdano.	Rhestr gan gydlynnydd Taflen amser lleoliadau gwaith Ffurflen absenoldeb awdurdodedig wedi'i llofnodi gan ddarlithydd.
Presenoldeb mewn cyfarfod prawf neu gyfarfod gyda gweithiwr cymdeithasol.	Llythyr swyddogol gan swyddog/gweithiwr.
Cludiant myfyrwyr wedi cael ei effeithio'n sylweddol, fel streic neu storm eira, sy'n gadael y myfyriwr heb unrhyw gludiant arall i deithio i'r Coleg.	Nodyn safonol wedi'i llofnodi gan y Coleg.
Prawf gyrru / prawf gyrru theori.	Llythyr swyddogol.
Cyfarfod cynrychiolwyr Coleg	Llythyr wedi'i llofnodi gan gynrychiolydd coleg
<b>Bydd y rhesymau canlynol yn cael eu hystyried fel eglurhad unigryw o absenoldeb, ond byddwn yn archwilio unrhyw batrymau sy'n datblygu:</b>	
Gweithgareddau allgyrsiol e.e. cymryd rhan mewn chwaraeon ar lefel genedlaethol neu sirol. Rhiad i'r gweithgaredd gynrychioli cyflawniad personol arwyddocaol.	Ffurflen Absenoldeb Gweithgaredd ag Eglurhad wedi'i llofnodi gan y Darlithydd
Absenoldeb Hirdymor*/Cyfrifoldebau Gofal Plant	Absenoldeb Hirdymor ag Eglurhad/Ffurflen Cyfrifoldebau Gofal Plant wedi'i llofnodi gan y Tiwtor/Cydlynnydd/Tiwtor Cynorthwyol y Gyfadran neu Diwtor y Gyfadran.
Presenoldeb mewn angladd neu briodas aelodau agos o'r teulu.	Llythyr gan riant/gwarcheidwad

\* Bwrddir i'r LCA dalu costau a godir trwy fynychu cyrsiau addysg bellach. Mewn amgylchiadau eithriadol nid yw myfyrwyr ag afiechyd hirdymor ond yn gallu cael eu marcio fel E (Eglurhad) os ydynt yn parhau i wneud eu gwaith coleg. Dylid darparu papurau meddyg a dylai'r tiwtor eu cadw yn ffeil Cofnod Personol y Myfyriwr. Rhaid i'r Tiwtor gofnodi manylion y gwaith a gwblhawyd ar Gerdyn Cofnod y Myfyriwr. Bydd absenoldebau meddygol am fwy na thair wythnos yn destun adolygiad, er mwyn asesu'r amgylchiadau unigol.